Adran Gwaith
a Phensiynau

# Sut i anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt drwy chwilio am y budd-dal perthnasol ar **www.gov.uk**

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

**CRMR1AW** 01/26

# Contents


**Y canllaw hwn** .......... **3**

**Cyn i chi herio'r penderfyniad** .......... **3**

**Gofyn am Ailystyriaeth Orfodol** .......... **3**

**Sut i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol** .......... **4**
Dros y ffôn .......... **4**
Trwy'r post .......... **4**
Terfynau amser .......... **4**

**Y ffurflen CRMR1W** .......... **5**
Chi .......... **5**
Os yw cynrychiolydd yn llenwi'r ffurflen .......... **5**
Am y penderfyniad gwreiddiol .......... **5**
Pam rydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad .......... **5**
Gwiriwch a llofnodwch .......... **5**

**Enghreifftiau o wybodaeth bellach i'w cynnwys** .......... **6**

**Ar ôl i chi anfon eich cais am Ailystyriaeth Orfodol** .......... **8**
Sut i apelio .......... **8**
Terfynau amser .......... **8**


## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**

# Y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn egluro beth allwch chi ei wneud os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gennym ni.

Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad am Fudd-dal Tai, mae angen i chi gysylltu â'ch awdurdod lleol. Ar gyfer Budd-dal Plant, Lwfans Gwarcheidwad neu Gredydau Treth, mae angen i chi gysylltu â Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (HMRC). Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol a HMRC ar-lein yn GOV.UK neu ar y llythyr penderfyniad gwreiddiol a gawsoch.

# Cyn i chi herio'r penderfyniad

Cyn i chi herio penderfyniad, mae bob amser yn werth gofyn i ni ei esbonio. Gallwch ffonio'r rhif sydd ar frig eich llythyr penderfyniad a gofyn i egluro'r penderfyniad. Gall hyn fod yn llawer cyflymach ac os byddwn yn dod o hyd i gamgymeriad, byddwn yn edrych ar ein penderfyniad eto.

# Gofyn am Ailystyriaeth Orfodol

Os esboniwyd y penderfyniad i chi ond nad ydych yn cytuno ag ef o hyd, gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol. Mae hyn yn golygu y bydd swyddog penderfyniadau gwahanol yn edrych ar eich cais a gweld a oedd y penderfyniad yn gywir neu'n anghywir.Byddant yn gwneud eu penderfyniad gan ddefnyddio:

- ffeithiau eich achos
- y wybodaeth sydd ganddynt
- unrhyw wybodaeth newydd a ddarperir gennych, a
- y gyfraith.

Yn dilyn Ailystyriaeth Orfodol, gall swm y budd-dal a gewch fynd i fyny, i lawr neu aros yr un fath. Efallai y byddwch hefyd yn rhoi'r gorau i gael eich budd-dal.

# Sut i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol

## Dros y ffôn

Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol dros y ffôn. Dyma'r ffordd gyflymaf i ofyn i ni edrych ar benderfyniad eto. Ffoniwch y rhif ar y llythyr penderfyniad a gawsoch gennym ni.

## Trwy'r post

Os na allwch ein ffonio, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn llenwi'r ffurflen **CRMR1W** i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol. Gallwch lawrlwytho'r ffurflen o **www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol**

Unwaith y byddwch wedi llenwi'r ffurflen CRMR1W, argraffwch hi a'i hanfon i'r cyfeiriad ar eich llythyr penderfyniad gwreiddiol.

Os nad ydych am ddefnyddio'r ffurflen CRMR1W, gallwch ysgrifennu atom. Bydd angen i chi gynnwys:

- eich enw, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol
- dyddiad y penderfyniad rydych am i ni edrych arno (mae'r wybodaeth hon ar y llythyr penderfyniad)
- pa ran o'r penderfyniad rydych am i ni edrych arni eto
- pam y credwch fod rhan o'r penderfyniad yn anghywir.

## Terfynau amser

Dylech ofyn am Ailystyriaeth Orfodol o fewn mis i ddyddiad y llythyr penderfyniad. Os ydych yn gofyn am Ailystyriaeth Orfodol ar ôl mis, dywedwch pam wrthym.

# Y ffurflen CRMR1W

Nid oes angen llenwi pob rhan o'r ffurflen. Mae'r adran hon yn esbonio'r gwahanol rannau o'r ffurflen CRMR1W.

## Chi

Mae'r rhan hon yn gofyn am wybodaeth gyffredinol fel eich enw a'ch manylion cyswllt.

Mae hefyd yn gofyn am yr amser gorau i gysylltu â chi. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn ceisio cysylltu â chi ar yr adegau yr ydych wedi dweud wrthym ar y ffurflen.

## Os yw cynrychiolydd yn llenwi'r ffurflen

Os ydych yn llenwi'r ffurflen amdanoch chi, ewch i Ynglŷn â'r penderfyniad gwreiddiol.

Os oes rhywun yn llenwi'r ffurflen ar eich rhan, mae angen iddynt roi eu manylion yma. Gallai hyn fod yn rhiant, gofalwr, perthynas neu Ddirprwy cyfreithiol.

Yn ogystal ag anfon y ffurflen ac unrhyw dystiolaeth, bydd angen i ni weld awdurdod wedi'i lofnodi yn caniatáu i'r cynrychiolydd ymdrin â'r cais hwn. Gall hwn fod yn llythyr wedi'i lofnodi. Nid yw hyn yn berthnasol os:

- rydych eisoes wedi'ch cofrestru fel penodai'r hawlydd neu Ddirprwy gyda DWP, neu
- chi yw rhiant neu warcheidwad cyfreithiol yr hawlydd.

## Am y penderfyniad gwreiddiol

Ynglŷn â'r penderfyniad gwreiddiol mae'n gofyn faint o amser sydd wedi bod ers i ni wneud y penderfyniad gwreiddiol. Os ydych yn gofyn am Ailystyriaeth Orfodol fwy na mis ar ôl y dyddiad hwnnw, dywedwch wrthym pam.

## Pam rydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad

Dyma'ch cyfle i ddweud wrthym pam eich bod yn meddwl bod y penderfyniad yn anghywir. Rhaid i chi gynnwys unrhyw wybodaeth sy'n dangos ein bod wedi gwneud y penderfyniad anghywir.

Os ydych yn anghytuno â mwy nag un rhan o'r penderfyniad, dywedwch wrthym pam yr ydych yn anghytuno â phob rhan.

## Gwiriwch a llofnodwch

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi'r ffurflen yn gywir ac wedi cynnwys yr holl wybodaeth y gallwch. Yn olaf, llofnodwch a dyddiwch y ffurflen cyn i chi ei hanfon.

# Enghreifftiau o wybodaeth bellach i'w cynnwys

Yn ogystal â'ch ffurflen, mae'n rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol i ni sy'n cefnogi'ch cais. Isod, mae rhai enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth y gallwn ac na allwn eu hystyried. **Nid yw hon yn rhestr lawn,** ond dylai roi syniad i chi o'r mathau o wybodaeth a fydd yn helpu eich Ailystyriaeth Orfodol.

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ar gyfer Taliad Annibyniaeth Personol**

**Anfonwch**

- Adroddiadau meddygol newydd gan unrhyw nyrsys, meddygon neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gofalu amdanoch
- Adroddiadau neu gynlluniau gofal gan therapyddion neu nyrsys nad ydym wedi eu gweld
- Unrhyw wybodaeth newydd fel canlyniadau profion neu ganlyniadau sgan
- Eich rhestr presgripsiwn amlroddadwy gyfredol, os oes gennych un.

**Peidiwch ag anfon**

- Gwybodaeth rydych eisoes wedi'i darparu
- Taflenni ffeithiau neu wybodaeth gyffredinol am y cyflwr iechyd neu anabledd
- Llythyrau neu gardiau apwyntiad meddygol
- Tocynnau bws neu drên i apwyntiadau meddygol yr ydych wedi eu mynychu.

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ar gyfer Lwfans Cyflogaeth a Chymorth**

**Anfonwch**

- Adroddiadau meddygol newydd gan unrhyw nyrsys, meddygon neu weithwyr proffesiynol eraill sy'n gofalu amdanoch
- Tystiolaeth pam y colloch apwyntiad nad ydym yn gwybod amdano
- Unrhyw wybodaeth newydd fel canlyniadau profion neu ganlyniadau sgan
- Eich rhestr presgripsiwn amlroddadwy gyfredol, os oes gennych un.

**Peidiwch ag anfon**

- Gwybodaeth rydych chi eisoes wedi'i darparu
- Taflenni ffeithiau neu wybodaeth gyffredinol am y cyflwr
- Esboniad nad oeddech yn sylweddoli bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am newid mewn amgylchiadau
- Tocynnau bws neu drên i apwyntiadau meddygol yr ydych wedi eu mynychu.

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ar gyfer Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Byw i'r Anabl i Blant**

**Anfonwch**

- Cynlluniau gofal neu gynlluniau ymddygiad gan ysbytai neu ysgolion nad yw DWP yn gwybod amdanynt
- Gwybodaeth am effeithiau o ddydd i ddydd y cyflwr(au) nad ydym yn gwybod amdanynt
- Gwybodaeth am gymhorthion ychwanegol neu addasiadau nad ydym yn gwybod amdanynt
- Eich rhestr presgripsiwn amlroddadwy gyfredol, os oes gennych chi un.

**Peidiwch ag anfon**

- Gwybodaeth rydych eisoes wedi'i darparu
- Taflenni ffeithiau neu wybodaeth gyffredinol am y cyflwr iechyd neu anabledd
- Dyddiadau ac amseroedd apwyntiadau meddygol. Ni fydd y rhain yn effeithio ar y penderfyniad y gellir ei wneud
- Tocynnau bws neu drên i apwyntiadau meddygol yr ydych wedi eu mynychu.

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ar gyfer Credyd Cynhwysol**

**Anfonwch**

- Tystiolaeth i ddangos unrhyw incwm a enilloch yn wahanol i'r wybodaeth sydd gennym
- Biliau, cytundebau tenantiaeth a datganiadau banc sy'n dangos eich bod yn byw ar eich pen eich hun os ydym yn meddwl bod rhywun yn byw gyda chi
- Tystiolaeth o pam y colloch apwyntiad nad ydym yn gwybod amdano.

**Peidiwch ag anfon**

- Gwybodaeth rydych eisoes wedi'i darparu
- Esboniad nad oeddech yn sylweddoli bod yn rhaid i chi ddweud wrthym am newid mewn amgylchiadau.

**Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad am Fudd-dal DWP arall**

Mae llawer mwy o fudd-daliadau a gwobrau yr ydym yn gwneud penderfyniadau arnynt. Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol o unrhyw un o'r budd-daliadau a restrir ar **www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol**

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen CRMR1W i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol o unrhyw un o'r rhain.

Ar gyfer y budd-daliadau eraill hyn, efallai y byddwch am ffonio'r rhif sydd ar frig eich llythyr penderfyniad i ofyn pa wybodaeth fydd fwyaf defnyddiol ar gyfer eich Ailystyriaeth Orfodol.

Ceisiwch anfon gwybodaeth sy'n benodol i chi a'ch cais nad ydym wedi'i gweld o'r blaen.

# Ar ôl i chi anfon eich cais am Ailystyriaeth Orfodol

Byddwn yn dweud wrthych pan fyddwn wedi derbyn eich cais. Gallai hyn fod yn llythyr, neges destun, galwad ffôn neu ddiweddariad yn eich Dyddlyfr os byddwch yn gofyn am Ailystyriaeth Orfodol o Gredyd Cynhwysol.

Bydd swyddog penderfyniadau'n edrych ar yr holl wybodaeth sydd ganddynt am eich cais. Nid yr un person a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol. Efallai y bydd angen iddynt eich ffonio am ragor o wybodaeth cyn y gallant wneud penderfyniad.

Pan fyddwn wedi edrych ar eich cais eto, byddwn yn gwneud penderfyniad ac yn anfon Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch.

Bydd hwn yn dweud wrthych sut y gwnaethom ein penderfyniad gan ddefnyddio'r dystiolaeth a'r wybodaeth a ddarparwyd gennych. Os ydych chi'n fodlon â'r penderfyniad, nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall.

# Os ydych yn anghytuno â Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol

Gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Nid yw'r tribiwnlys hwn yn rhan o DWP. Bydd yn gwneud penderfyniad diduedd ar eich cais gan ddefnyddio'r holl dystiolaeth sydd ar gael.

## Sut i apelio

Bydd eich Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol yn esbonio sut y gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad a wnaethom. Gallwch ymweld â **www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol** i gael rhagor o wybodaeth.

Fel arfer mae angen Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol arnoch cyn y gallwch apelio i'r tribiwnlys.

## Terfynau amser

Rhaid i chi apelio i'r tribiwnlys o fewn mis i'r dyddiad ar eich Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol.